

# Sut cyrhaeddon ni yma

## How we got here

### CRYNODEB O'R STRATEGAETH

Drwy gydol y chwe mis diwethaf, mae Cyngor Tref Brynbuga, Cyngor Sir Fynwy ac Arup wedi bod yn datblygu Cynllun Gwella Tref. Diben y cynllun hwn yw deall y problemau a'r cyfleoedd sy'n bodoli ym Mrynbuga a datblygu strategaethau a phrosiectau i ymdrin â'r rhain a sicrhau dyfodol ffyniannus i'r dref.

Mae'r digwyddiad ymgynghori hwn yn dilyn cyfres o ymarferion tebyg sydd wedi helpu i ffurio'r cynllun, sef:

- Canfyddiadau Arolwg Dyfodol Brynbuga
- Ymgynghori â'r cyhoedd yn ystod parti stryd gŵyl banc mis Awst a Sioe Brynbuga
- Digwyddiadau penodol ar gyfer rhanddeiliaid ym mis Medi

Ar ôl y digwyddiadau hyn, aeth y tîm ati i ystyried yr adborth, asesu'r manylion technegol ac alinio'r strategaeth â'r argyfwng hinsawdd, y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a pholisi cynllunio. Arweiniodd hyn at bedair thema allweddol sydd wedi llywio'r cynllun:

- Adfer ein strydoedd a'n manau
- Gweithredu ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol
- Botaneg a'r amgylchedd,
- Busnes: Yn falch o fod yn annibynnol

### SUMMARY OF THE STRATEGY


Throughout the last six months, Usk Town Council, Monmouthshire County Council and Arup have been developing a Town Improvement Plan. The purpose of this plan is to understand the problems and opportunities within Usk and to develop strategies and projects to deal with these to ensure the town has a prosperous future.

This consultation event follows a series of similar exercises which have helped shaped the plan, these include:

- The findings of the Future Usk Survey
- Consultation with the public at the August Bank holiday street party and The Usk Show
- Dedicated stakeholder events in September.

After taking on board feedback, looking at some of the technical detail and understanding how need to respond to influences including the climate emergency, recent legislation such The Well-being of Future Generations Act and planning policy, four key themes have been developed to guide the plan:

- Reclaiming our streets and spaces
- Action for Future Generations
- Botanics and environment,
- Business: Proudly independent



### Ble allwn ni wella?

### Where can we improve?

Hyfywedd busnesau newydd	Adfywio Stryd y Bont	Darparu ar gyfer pobl ifanc	Gwell digwyddiadau	Materion amgylcheddol sy'n ymwneud â thraffig	Gwella parcio	Tai fforddiadwy	Angen mwya o wasanaethau/ amwynderau/ manwerthu lleol
Viability of new businesses	Regenerate Bridge Street	Catering for younger people	Improved events	Environmental issues associated with traffic	Improve parking	Affordable housing	Need more local services/ amenities/retail

# Beth sy'n cael ei gynnig? What is proposed?

## YR AMCANION A'R CYNLLUN • THE OBJECTIVES AND PLAN

### AMCANION

Er mwyn helpu i gyfeirio'r cynllun a rhoi syniad clir o'r hyn rydym ni'n ceisio ei gyflawni, mae cyfres o amcanion wedi cael eu nodi:

- Gwella tir y cyhoedd
- Cadw, cefnogi a denu busnesau annibynnol
- Cefnogi ac ehangu'r economi ymwelwyr
- Brynbuga mwy iach a hapus
- Gwella cyfalaf gwyrdd Brynbuga
- Cefnogi'r gymuned amaethyddol
- Cymuned ffyniannus ac ymdeimlad o hunaniaeth
- Brynbuga gwydn a chynaliadwy
- Gweithio mewn partneriaeth

### OBJECTIVES

To help direct the plan and provide a clear idea of what we are trying to achieve, a set of objectives have been identified:

- Improved public realm
- Retain, support and attract independent businesses
- Support and expand the visitor economy
- A healthier, happier Usk
- Enhance Usk's green capital
- Support the agricultural community
- A thriving community and sense of identity
- A resilient and sustainable Usk
- Partnership working

### Y CYNLLUN • THE PLAN



	Stryd y Bont – Dyluniad sy'n rhoi blaenoriaeth i gerddwyr a threialu llwybr newydd ar gyfer cerbydau
1	Bridge Street - Pedestrian priority design and trials of new vehicle routing
2	Sgwâr Twyn – Adfer sgwâr tref Brynbuga Twyn Square - Reclaiming Usk's town square
	Ffwrdd Solar Gymunedol – Cynhyrchu ynni adnewyddadwy a chreu refeniw lleol
3	Community Solar Farm - Renewable energy production and local revenue generation
A	Gwelliannau i goridor Afon Wysg – Mynediad gwell a chysylltiadau posibl â Llwybr Cerdoded Dyffryn Wysg. Pont teithio llesol newydd dros Afon Wysg
	River Usk corridor improvements - Improved access and potential linkages to the Usk Valley Walk. A new active travel bridge over the River Usk
B	Gwelliannau i Ynys Brynbuga – Chwarae gwylt, creu cynefin a chaffi/bwyty newydd Usk Island improvements - Wild play, habitat creation and a new cafe/restaurant
C	Cysylltiad teithio llesol (sydd wrthi'n cael ei archwilio'n annibynnol ar yr astudiaeth hon)
	Active travel connection (currently being explored independently from this study)
i-ii	Strategaeth barcio ar gyfer y dref gyfan – Parcio a reolir, lleoliad newydd posibl ar gyfer ardal gydweithio, tai fforddiadwy a defnydd cymunedol
	Town wide parking strategy - Managed parking, a possible new location for a co-working space, affordable housing and community use
iii	Cynllun tymor hwyl i ystyried aildefnyddio tir o amgylch yr ystad ddiwydiannol i ymateb i anghenion yn y dyfodol, fel parcio ar gyrrion y dref
	A longer term plan to consider reuse of land around the industrial estate to respond to future needs such as edge of town parking

# Symud o gwmpas

## Movement

### CERBYDAU • VEHICLES

Mae'r heriau sy'n ymwneud â thraffig a symud o gwmpas yn broblem amlwg, ac mae Stryd y Bont yn achos pryder penodol. Yn unol â deddfwriaeth Llywodraeth Cymru a pholisi cynllunio, rydym wedi datblygu camau gweithredu i leihau goruchafiaeth ceir ym Mrynbuga er mwyn:

- Darparu aer glanach i bobl ei anadlu
- Ein helpu ni i fod yn fwy egniol ac iach drwy wneud cerdded a beicio'n haws i bawb
- Darparu mwy o le i blant chwarae a gwneud y daith gerdded i'r ysgol yn fwy diogel
- Gwneud Brynbuga yn lle mwy atyniadol i fyw yn ddiwrthwylledig a ymhweld ag ef
- Ein gwneud ni'n fwy cynaliadwy trwy leihau ein hallyriadau carbon.

Dyma'r datrysiau a gynigir

- Darparu palmentydd mwy llydan a diogel ar hyd Stryd y Bont a rhoi mwy o le tu allan ar gyfer siopau lleol a choed stryd. I wneud hyn, cynigir treialu system unffordd i ddeall a allai hyn fod yn ddatrysiaid ymarferol yn y tymor hir
- Creu cyfyngiad cyflymder 20mya ar gyfer y dref gyfan
- Defnyddio dyluniad stryd sy'n rhoi 'blaenoriaeth i gerddwyr' i'w gwneud yn haws croesi, annog pobl i yrurun arafach a gwella golwg a theimlad y stryd
- Defnyddio'r ymyriadau hyn i annog traffig i beidio â theithio trwedd
- Rheoli parcio trwy gyfyngiadau arhosiad byr neu godi tâl
- Archwilio mwy o opsiynau i ddefnyddio technoleg i ddarparu gwasanaethau bws 'yn ôl y galw'.

**A** Pont newydd ar gyfer teithio llesol – cerddwyr/beicwyr  
A new active travel - pedestrian/cycle bridge

**1** Croesfan uwch a newid deunydd arwyneb y ffordd i ddynodi porth.  
Raised crossing and change of surface material to mark gateway space.

**2** Croesfan â bwrdd arafu.  
Raised table crossing.

**3** Potensial ar gyfer man penodol i'w rannu.  
Potential focal shared space.

**4** Croesfan uwch a newid deunydd arwyneb y ffordd i ddynodi porth.  
Raised crossing and change of surface material to mark gateway space.

**5** Sgwâr Twyn wedi'i adfywio.  
The revived Twyn Square.

**6** Creu clirffordd heibio i'r siop sglodion – dim parcio  
Clearway created past chip shop - no parking

**7** Croesfan uwch a chyffordd arafu.  
Raised crossing and table junction.


**8** Pennu ffniâu ardal groesi allweddol yr ysgol  
ymhellach trwy newidiadau i ddeunydd arwyneb y ffordd.  
Key school crossing area further delineated through changes to the surface materials.

Challenges around traffic and movement are a known problem with Bridge Street a particular concern. In line with Welsh Government legislation and planning policy, we have developed actions to reduce the dominance of cars within Usk in order to:

- Provide people with cleaner air to breath
- Make us more active and healthier by making walking and cycling easier for everyone
- Provide more space for children to play and to make the walk to school safer
- Make Usk a more attractive place to live in and visit
- Make Usk more sustainable.

The proposed solutions are:

- To provide wider, safer pavements along Bridge Street and to give more outside space for local shops and street trees. To do this it is proposed to trial one-way system to understand whether this could be a viable, long term solution
- Create a 20mph speed restriction that covers the whole town
- Use 'pedestrian priority' street design to make crossing easier, encourage people to drive more slowly and to improve the look and feel of the street
- To manage parking through short stay restrictions or charging
- Exploring more options to use technology to provide 'on-demand' bus services.



# Symud o gwmpas

## Movement


### SYMUD O GWMPAS A BEICIO • MOVEMENT AND CYCLING

I gefnogi ymdrechion i leihau ein dibyniaeth ar geir, bydd angen i ni wneud cerdded a beicio yn opsiwn mwy atyniadol o lawer drwy:

- Greu lonydd beicio penodol, lle y bo'n bosibl, gan gynnwys ar lwybrau Sustrans
- Hyrwyddo Sgwâr Twyn fel hyb ar gyfer cerddwyr a beicwyr
- Cefnogi cynlluniau i drawsnewid yr hen linell reilffordd yn llwybr beicio er mwyn cysylltu'r Coleg a swyddfeydd y Cyngor yn well
- Gwella a hyrwyddo Llwybr Cerdded Dyffryn Wysg
- Sicrhau bod gan Frynbuga ganolfan leol ffyniannus sy'n lleihau'r angen i bobl deithio ymhellach i ffwrdd
- Lleihau cyflymder cerbydau a newid dyluniad strydoedd i'w gwneud yn ddiogel ac yn fwy atyniadol.

To support efforts to reduce our dependency on cars we will need to make walking and cycling a much more attractive option by:

- Creating designated bike lanes where possible including on the Sustrans routes
- Promoting Twyn Square as a hub for walkers and cyclists
- Supporting plans to transform the old railway line into a cycle way to better connect the College and Council offices
- Improving and promoting the Usk Valley Walk
- Ensuring that Usk has a thriving local centre that reduces the need for people to travel further afield
- Reducing vehicle speeds and changing the design of streets to make them safe and more attractive.



## 33%

Canfu astudiaeth fod pobl sy'n cerdded am fwy nag 8.6 munud y dydd 33% yn fwy tebygol o ddweud bod eu hiechyd meddwl yn well.

A study found that those who walk for more 8.6mins per day are 33% more likely to report better mental health.



## 21%

Canran y bobl dros 65 oed sy'n credu bod beicio'n ddiogel<sup>1</sup>

Of over 65's who think cycling is safe<sup>1</sup>

## 73%

Canran y menywod nad ydynt yn beicio<sup>1</sup>

Of women do not cycle<sup>1</sup>

## 33%

Canran y bobl anabl a hoffai ddechrau beicio<sup>1</sup>

Of disabled people would like to start cycling<sup>1</sup>

# Sgwâr Twyn Twyn Square

ADFER SGWÂR TREF CYHOEDDUS BRYNBUGA • RECLAIMING USK'S TOWN SQUARE

## SGWÂR TWYN HEDDIW

Mae'r sgwâr wedi'i ddiffinio a'i ddominyddu gan ffyrdd, heb lawer o le i bobl.

## TWYN SQUARE TODAY

The square is defined by and dominated by roadways with little space for people.



## DATGLOI LLE

Trwy aifeddwl am aliniad a lleoliad symudiadau cerbydau, gellir ailgyflwyno man cyhoeddus.

## UNLOCKING SPACE

By rethinking the alignment and location of vehicle movement, a public space can be reintroduced.



# Busnes Lleol

## Local Business

Mae strydoedd mawr lleol yn y Deyrnas Unedig yn wynebu newid digynsail o du siopa ar-lein ac arferion siopa sy'n newid. Ar ôl astudio Brynbuga ac ymchwilio i drefi tebyg, credwn y gallai Brynbuga ddod yn dref annibynnol arbenigol sy'n manteisio ar ei chymeriad hanesyddol, ei lleoliad gwledig, ei hagosrwydd i brif ddinasoedd a'i busnesau annibynnol presennol.


Mae nifer o gynlluniau wedi cael eu hamlygu i helpu i gyflawni hyn a chefnogi busnesau lleol.

- Anelu at ddim siopau gwag
- Cyfryngwyr dibynadwy i helpu i gysylltu busnesau posibl â landlordiaid
- Defnyddio'r lle uwchben siopau i ddarparu tai fforddiadwy i bobl leol
- Cynlluniau peilot Drws Agored sy'n rhoi cyfle i grwpiau cymunedol neu grwpiau buddiannau lleol feddianu unedau gwag er mwyn iddynt gael eu defnyddio unwaith eto dros dro
- Mentrau Sector Cyhoeddus, gan gynnwys prynu adeiladau gwag i greu man fforddiadwy ar gyfer busnesau, mentrau cymdeithasol a defnyddiau cymunedol newydd
- Cardiau ffyddlondeb lleol
- Rheoli parcio ceir er mwyn sicrhau bod pobl yn gallu defnyddio'r prif ardaloedd parcio.

*Local high streets in the UK are facing unprecedented change from online shopping and changing shopping habits. After studying Usk and researching similar towns, we feel that Usk could become a specialist independent town that capitalises on its historic character, rural setting, proximity to major cities and the existing, independent businesses.*

A number of schemes have been identified to help achieve this and to support local businesses.

- Aiming for zero-empty shops
- Trusted intermediaries to help put potential businesses in touch with landlords
- Using the space above shops to provide affordable housing for local people
- Open Doors pilots where community groups or local interest groups have the chance to occupy empty units to bring them back into use on a temporary basis
- Public Sector initiatives including the purchasing of empty buildings
- Local loyalty cards
- Managing car parking to ensure people can access the main car parking areas.



# Busnes Lleol Local Business

7



Cont.

- Ystyried ffyrdd y gall busnesau lleol gael mwy o reolaeth dros eu stryd fawr, fel Ardal Gwella Busnes
- Rhannu syniadau a gwybodaeth â lleoedd sydd wedi wynebu a goresgyn problemau tebyg
- Sicrhau bod gan Frynbuga fynediad cyflym iawn i'r rhyngrwyd i alluogi busnesau lleol i weithredu
- Creu man 'cydweithio' lle y gall grwpiau o fusnesau bach lleol weithredu mewn ardal weithio a rennir
- Gwella'r economi ymwelwyr trwy ehangu ystod ac ansawdd llety
- Hyrwyddo Brynbuga gan ddefnyddio'r rhyngrwyd a chyfryngau cymdeithasol
- Parhau i gynnal digwyddiadau presennol ac ystyried rhai newydd i ddenu pobl i'r dref.

Cont.

- Looking at ways in which local businesses can have more control over their high street such as a Business Improvement District
- Sharing ideas and knowledge with places that have faced and overcome similar problems
- Ensuring Usk has ultra-fast internet access to enable local businesses to operate
- Creating a 'co-working' space where groups of small, local businesses can operate in a shared work space
- Improving the visitor economy by expanding the range and quality of accommodation
- Promoting Usk using the internet and local media
- Maintaining existing events and considering new ones to draw people to the town.

# Y dirwedd ehangach

## Wider landscape



Un o gryfderau mwyaf Brynbuga yw ei dirwedd a'i leoliad naturiol. Rydym yn awyddus i glywed eich barn ynglŷn â sut y gallai Brynbuga weithio'n agosach â'r gymuned amaethyddol er budd pawb. O ran y dref ei hun, mae gwella Ynys Brynbuga wedi cael ei amlygu fel cyfle arwyddocaol.

*One of Usk's greatest strengths is the natural setting and landscape. We are keen to hear your views about how Usk could work more closely with the agricultural community for mutual benefit. For the town itself, improving Usk Island has been identified as a significant opportunity.*

### YNYS BRYNBUGA USK ISLAND



- ① Llwybr heini posibl a gwella Llwybr Cerdoded Dyffryn Wysg  
Possible trim trail & improved Usk Valley Walk
- ② Plannu blodau gwylt  
Wildflower planting
- ③ Llwybr chwarae i blant – Chwarae Gwylt  
Children's play trail - Wild Play
- ④ Man Chwarae Amloddefnydd a/neu barc sglefrio posibl  
Potential Multi Use Games Area and/or skate park
- ⑤ Caffi/ bwyty  
Cafe/ restaurant




# Y dirwedd ehangach

## Wider landscape

### MEDDWL YN YR HIR DYMOR

#### THINKING LONGER TERM



# *Beth fydd yn digwydd nesaf?* *What happens next?*

10

## EBRILL 2020

Bydd y cynllun yn cael ei fabwysiadu gan Gyngor Sir Fynwy a Chyngor Tref Brynbuga i arwain newidiadau ym Mrynbuga yn y dyfodol.

## APRIL 2020

The plan is adopted by MCC and UTC to guide future change in Usk.

## GORFFENNAF 2020

Dechrau blaenoriaethu prosiectau.

## JULY 2020

Prioritisation of projects begins.

## 2020-2021

Ceisio cyllideb ar gyfer prosiectau tymor canolig i dymor hwy (1-5 mlynedd). Datblygu achosion busnes, dyluniadau a strategaethau cyflawni.

## 2020-2021

Budget sought for medium to longer term projects (1-5 years).



## IONAWR 2020

Ymgynghoriad cyhoeddus.

## JAN 2020

Public consultation.

## MAI 2020

Creu grŵp partneriaeth a phwyllgor llywio. Bydd y rhain yn gyfrifol am amlyu pa brosiectau sy'n cael eu cyflwyno a phryd. Paratoi ar gyfer treialu system unffordd.

## MAY 2020

Partnership group and steering committee created. These will be responsible for identifying which projects come forward and when. Preparation of trial one-way system.

## YN HWYR YN YSTOD 2020

Cytuno ar brosiectau cynnar.

## LATE 2020

Early projects agreed.

## 2021-2026

2021-2026: Cyflawni prosiectau tymor byr i ganolig.

## 2021-2026

Medium to longer term projects delivered.

